
Dŵr Cymru
Welsh Water

# Y Rheoliadau Dŵr

## Sut maen nhw'n effeithio arnoch chi.



Cadw ein dŵr yn ddiogel a'n cwsmeriaid yn fwy diogel byth.


# Beth yw'r Rheoliadau?

Mae'r Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 (y Rheoliadau) yn berthnasol i unrhyw eiddo sy'n cael cyflenwad dŵr iachus gan Ddŵr Cymru.

Y gofynion cenedlaethol ar gyfer dylunio, gosod a chynnal a chadw systemau plymio, ffitiadau dŵr ac offer sy'n defnyddio dŵr ar draws Cymru a Lloegr yw'r Rheoliadau.

Prif bwrpas y Rheoliadau yw amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesur gwallus ac yn bwysicach na dim, halogiad y dŵr rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid.

Fel rheol, mae'r Rheoliadau mewn grym o'r pwynt lle mae ein cyflenwad yn mynd i mewn i'r bibell sy'n cyflenwi eiddo ein cwsmeriaid, hyd at y fan lle mae'n cael ei ddefnyddio trwy dapiau, falfiau a theclynnau.



## Pwy sy'n gorfod cydymffurfio â'r Rheoliadau?

Mae gofyn i'n cwsmeriaid, fel perchnogion neu ddeiliaid yr eiddo rydyn ni'n ei gyflenwi, gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yma.

Mae'r Rheoliadau'n sôn am y bobl sy'n gosod y ffitiadau dŵr hefyd, felly mae gofyn i unrhyw un sy'n gosod neu'n cynnal ffitiadau dŵr sicrhau bod eu gwaith yn bodloni'r gofynion.

## Rôl Dŵr Cymru

Fel eich cyflenwr dŵr, mae dyletswydd ar Ddŵr Cymru i orfodi gofynion y rheoliadau o fewn eich safle. Mae ein Rheoleiddwyr yn ein harchwilio ni o ran sut rydyn ni'n cyflawni'r rôl yma er mwyn sicrhau bod ein dull o weithredu o ran ein cwsmeriaid yn gyson, yn deg ac yn cyd-fynd â gofynion y Rheoliadau.

Yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n falch o flaenoriaethu ein cwsmeriaid ac fe wnawn ni bopeth y gallwn ni i gydweithio'n agos â nhw i ddatrys problemau a helpu i unioni pethau.

Mae Dŵr Cymru'n cyhoeddi polisi gorfodi ar ein gwefan lle mae rhagor o fanylion am sut rydyn ni'n gweithio gyda'n cwsmeriaid i hyrwyddo cydymffurfiaeth ar draws ein hardal gyflenwi.

## Beth y gallwch ei wneud i gydymffurfio?

Dydyn ni ddim yn disgwyl i'n holl gwsmeriaid fod yn gyfarwydd â gofynion y Rheoliadau, ond gallwch chi chwarae eich rhan trwy brynu offer sy'n cydymffurfio, a defnyddio pobl broffesiynol a chymwys sy'n deall y Rheoliadau wrth gyflawni unrhyw waith plymio.

Os oes unrhyw amheuaeth, mae ein tîm o arbenigwyr yn y Rheoliadau Dŵr yno pan fo angen i gynnig arweiniad am sut y gallwch gydymffurfio.

Gallwch ddod o hyd i blymwr cymeradwy lleol trwy fynd i'n gwefan yn **www.dwrcymru.com** a defnyddio bar chwilio hwylus WaterSafe ar y dudalen ar y Rheoliadau Dŵr.

WaterSafe®
LOCAL APPROVED PLUMBERS



## Contractwyr cymeradwy

Mae gan aelodau o'r cynlluniau Contractwyr Cymeradwy, fel WaterSafe, gymwysterau cydnabyddedig ac yswiriant. Mae hynny'n golygu y gallwch fod yn hyderus y caiff y gwaith ei gyflawni'n gywir ac i safon addas wrth eu defnyddio. Mae plymwyr sy'n aelodau o'r cynlluniau hyn yn cael archwiliadau cyson gan Ddŵr Cymru er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn cydymffurfio.

Bydd y Contractwr Cymeradwy yn darparu tystysgrif ar eich cyfer sy'n nodi bod eu gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Maen nhw wedi eu heithrio rhag gorfod ein hysbysu ni am rai mathau o waith maent yn ei gyflawni hefyd. Fel arall, byddai angen ein hysbysu ni am y gwaith a gofyn am ein caniatâd ymlaen llaw.

Gallwch ddod o hyd i blymwr cymeradwy lleol trwy fynd i'n gwefan yn **www.dwrcymru.com** a defnyddio bar chwilio hwylus WaterSafe ar y dudalen ar y Rheoliadau Dŵr.

## Cynnyrch sy'n cydymffurfio

Wrth ystyried prynu ffitiadau ac offer plymio, mae hi'n syniad da sicrhau bod y cynnyrch rydych chi'n ei ddewis o ansawdd a safon briodol bob tro. Dylech ystyried hefyd a yw'r dyfeisiau rydych am eu gosod yn addas at yr amgylchiadau lle bwriedir eu defnyddio.

Mae'r Rheoliadau'n pennu'r gofynion ar gyfer ffitiadau dŵr ac yn darparu rhestr o ffyrdd y gellir profi cydymffurfiaeth ffitiadau neu offer. Gelwir hyn yn gydymffurfiaeth â Rheoliad 4.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys yr holl ffitiadau a fydd yn cludo neu'n defnyddio'r dŵr rydyn ni'n ei gyflenwi hefyd. Mae hyn yn cynnwys pethau fel tapiau, cawodydd, bwyleri cyfun, a hyd yn oed dyfeisiau cartref sy'n gysylltiedig â'r prif gyflenwad dŵr.

Rydyn ni'n annog ein cwsmeriaid a'u gosodwyr i ofyn i'w cyflenwyr am dystiolaeth bod y dyfeisiau maen nhw'n bwriadu eu defnyddio'n cydymffurfio â'r Rheoliadau, am y gellir gofyn i chi ddarparu tystiolaeth yn hynny o beth.

## Ffynonellau dŵr amgen

Os oes cyflenwad dŵr preifat gennych yn ogystal â'ch cyflenwad gennym ni, neu os ydych chi'n defnyddio dŵr glaw neu ddŵr llwyd ar eich eiddo, mae yna bethau pwysig y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt er mwyn sicrhau nad ydych chi'n achosi risg o halogiad i'r cyflenwad dŵr, a'ch bod chi'n cydymffurfio â'r gyfraith.

Ni chewch byth gysylltu cyflenwadau dŵr preifat, neu systemau sy'n defnyddio dŵr glaw/dŵr llwyd â'n prif gyflenwad dŵr. Lle bo'r ddwy system yn bodoli ar wahân, dylid eu labelu a'u gosod mewn modd sy'n atal y posibilrwydd o drawsgysylltiadau yn y dyfodol. Os oes angen i chi ategu eich cyflenwad dŵr preifat neu system dŵr amgen, yna rhaid i chi roi gwybod i ni. Byddwn ni'n hapus i'ch cynghori chi ar y ffordd gywir o wneud hyn.

## Hysbysu

Rhaid ein hysbysu ni am sawl math o waith plymio cyn y gellir dechrau'r gwaith. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cyflenwad dŵr yfed yn ddiogel bob amser.

Rydyn ni'n adolygu'r holl hysbysiadau sy'n dod i law, a gallwn bennu amodau ar unrhyw waith gosod lle bo hynny'n briodol. Mae'r tabl isod yn cynnwys rhestr o'r gwaith sy'n gofyn am hysbysiad ymlaen llaw o dan y Rheoliadau.

| TABL O'R GWAITH SY'N GOFYN AM HYSBYSIAD |
|---|
| **1.** Codi adeilad neu strwythur arall, heb fod yn bwll neu'n bwll nofio. |
| **2.** Ehangu neu ddiwygio system dŵr ar unrhyw safle arall nad yw'n dŷ annedd. |
| **3.** Newid defnydd materol unrhyw safle. |
| **4.** Gosod –<br>**a)** Bath â chapasiti o dros 230 litr wedi ei fesur i linell ganol y gorlif;<br>**b)** Bidet sy'n chwistrellu ar i fyny neu â phibell hyblyg;<br>**c)** Uned cawod sengl (a all gynnwys un pen cawod neu ragor o fewn un uned), heb fod yn gawod drensio, sydd wedi ei gosod am resymau diogelwch neu iechyd, ac sydd wedi ei chysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi o fath y mae'r rheoleiddiwr yn ei bennu;<br>**d)** Pwmp neu gyfnerthydd sy'n tynnu mwy na 12 litr y funud, sy'n cysylltu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phibell gyflenwi;<br>**e)** Uned sy'n ymgorffori gwrthosmosis;<br>**f)** Uned trin dŵr sy'n cynhyrchu gwastraff dŵr i'w ryddhau, neu sydd angen defnyddio dŵr at ddibenion adfywio neu lanhau;<br>**g)** Cydosodiad falf parth pwysedd is neu ddyfais fecanyddol arall i amddiffyn rhag hylif categori 4 neu 5;<br>**h)** System dyfrio gardd, oni bai ei bod wedi ei dylunio i'w gweithredu â llaw; neu<br>**i)** Unrhyw system ddŵr sy'n cael ei gosod y tu allan i adeilad ac sydd naill ai'n llai na 750mm neu'n fwy na 1350mm islaw lefel y ddaear. |
| **5.** Adeiladu pwll neu bwll nofio â chapasiti o dros 10,000 litr y bwriedir iddo gael ei adlenwi trwy ddulliau awtomataidd ac y mae angen ei lenwi |

Mae methu â hysbysu am unrhyw ran o'r gwaith uchod yn drosedd o dan y Rheoliadau.

Argraffiad 01 - Tachwedd 2025

## Sut mae cael rhagor o fanylion?

Cwmni sy'n cyhoeddi canllawiau a chynghorion ar ofynion y Rheoliadau yw Water Regs UK.

Mae eu gwefan yn cynnwys nifer o ddogfennau defnyddiol sydd ar gael yn hwylus, ac mae eu gwasanaeth ymholiadau technegol wrth law i geisio ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Gallwch gysylltu â Water Regs UK trwy fynd i **www.waterregsuk.co.uk** neu eu ffonio ar **01495 983010**.

## Cysylltu â ni

Os oes cwestiynau gennych am osodiad penodol neu rywbeth arall sy'n ymwneud â gorfodi'r Rheoliadau, y peth gorau i'w wneud yw cysylltu â ni'n uniongyrchol.

Mae rhywfaint o wybodaeth am y Rheoliadau ar ein gwefan, sef: **www.dwrcymru.com/cy-gb/help-cyngor/cyngor-dwr/rheoliadau-dwr**

Gallwch gysylltu â'n tîm Rheoliadau Dŵr trwy e-bostio **WaterRegulations@dwrcymru.com**